**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-07-99(Min)**

**Cofnodion drafft**

**Dyddiad:** Dydd Llun 4 Hydref 1999

**Amser:** 10:00 i 1:10

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol**

***Aelodau***

Val Feld (Cadeirydd) Dwyrain Abertawe

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Ron Davies Caerffili

Michael German Dwyrain De Cymru

Brian Hancock Islwyn

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Rhodri Morgan (AS) Gorllewin Caerdydd

Phil Williams Dwyrain De Cymru

Elin Jones Ceredigion

(yn lle Helen Mary Jones)

***Gwahoddwyd i Fynychu***

Jeff Andrews Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Yr Adran Bolisi, Cyngor Sir Caerdydd

***Swyddogion***

Derek Jones Uwch Gyfarwyddwr Materion Economaidd

Michael Cochlin Cyfarwyddwr y Grðp Datblygu Economaidd

***Ysgrifenyddiaeth***

Helen Usher Clerc

Jo Trott Dirprwy Glerc

***Ymddiheuriadau ac Eilyddion***

Nid oedd Helen Mary Jones yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau etholaethol. Roedd Elin Jones yn cymryd ei lle (dan SO 9.13).

**Eitem 1 ar yr agenda: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am fynychu ar ddydd Llun. Dywedodd fod yr agenda yn weddol llawn, ac y byddai'n rhaid iddi fod yn llym gydag amser.

1.2 Ynglþn â'r papur Ariannol yr oedd y Pwyllgor wedi gobeithio ei gael erbyn y cyfarfod hwn, nododd y Cadeirydd ei bod yn parhau i bwyso ar yr Ysgrifennydd Cynulliad am y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Roedd hi wedi hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad na fyddai'r pwyllgor mewn sefyllfa i gadarnhau i'r Cynulliad ei fod wedi ystyried proffil gwario'r rhaglen yn llawn, os na fyddent yn ei dderbyn erbyn cyfarfod y Pwyllgor ar 13 Hydref.

1.3 Yn benodol, yr oedd wedi gwneud cais ar ran y Pwyllgor am:

- Broffil blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer y pedair cronfa
- Datganiad o'r hyn sy'n cael ei ddwyn ymlaen o'r ERDF
- Asesiad o oblygiadau'r rhagamcanion hyn ar gyfer lefel y PES sy'n angenrheidiol yn ystod oes y rhaglen ac yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf.
- Rhagamcan o'r cyllid cyfatebol angenrheidiol (sector cyhoeddus a phreifat)
- Archwiliad cychwynnol o ffynonellau posibl o arian cyfatebol

1.4 Wrth esbonio pam na chyflwynwyd y papur, esboniodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod gweision sifil yn trafod â’r Trysorlys ynglþn â rhai o'r ffigurau ac nad oeddent yn ddigon cadarn eto i'r Pwyllgor eu harchwilio'n fanwl.

**Eitem 2: Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol ac Amcan 1**

2.1 Esboniodd y Cadeirydd mai pwrpas yr eitem hon oedd ceisio cytuno ar y prif negeseuon yr oedd y Pwyllgor yn dymuno i Ysgrifennydd y Cynulliad eu cyflwyno yn nhrafodaeth y Cabinet ynglþn â'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol a Dogfen Rhaglen Sengl Amcan 1 yn ystod y prynhawn.

2.2 Dywedodd y Pwyllgor ei fod yn awyddus i gytuno ar fater mor bwysig. Byddai hi o fudd i Gymru sicrhau bod y Pwyllgor a'r Weithrediaeth yn cydweithredu yn hyn o beth.

2.3 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth Bwyllgorau eraill yn gyntaf (EDC-07-99(p.5)). Gan ystyried ymateb y Pwyllgorau eraill yn eu tro, nodwyd yn arbennig fod:

- Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi mynegi pryder ynglþn â'r targedau arfaethedig ar y sail nad oeddent yn gwahaniaethu rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Cydnabu'r Cadeirydd fod angen llawer mwy o waith ar y targedau. Atgoffodd y Pwyllgor fod swyddogion yn gweithio ar bapur ar gyfer y Pwyllgor ar hyn o bryd. Ystyriwyd bod y targedau 'lefel is' hyn yn faterion i'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol (NEDS) yn hytrach na'r SPD ac mai'r Ddogfen Rhaglen Sengl oedd yr unig un oedd yn gofyn am gymeradwyaeth CE.
- Roedd y Pwyllgor Addysg Ar Ôl 16 oed yn bryderus iawn ynglþn â'r berthynas rhwng dogfennau Amcan 1 ac adroddiad ETAG. Byddai'r Pwyllgor yn edrych ar ETAG yn ystod ei gyfarfod nesaf. Ynglþn ag Ymchwil a Datblygu, nododd Ysgrifennydd y Cynulliad mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Datblygu Economaidd oedd hwn.
- Roedd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd wedi pwysleisio pwysigrwydd cynnwys fframwaith gofodol strategol o ran cynllunio defnydd tir yn y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol.

2.4 Nodwyd na chafwyd unrhyw ymateb oddi wrth y Pwyllgor Iechyd na’r Pwyllgor Addysg cyn 16 Oed.

2.5 Gan droi at y crynodeb o'r ymateb i'r Sioeau Teithiol, diolchodd y Cadeirydd i Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor am eu hymdrechion i drefnu'r cyfarfodydd a rhoi trefn ar yr ymatebion. Nodwyd fod mwyafrif y materion a godwyd wedi cael eu hystyried yn yr ail ddrafft neu'n cael eu trafod ymhellach gan y Pwyllgor dan benawdau fel gweithredu, targedau ac ati.

**Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol Ddiwygiedig (NEDS)(EDC-07-99(P.3))**

3.1 Gan symud ymlaen i drafod y Strategaeth yn fwy manwl, mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y datganiad o weledigaeth a oedd, yn wreiddiol, wedi'i gynnwys ar dudalen 24 a 25 o'r Strategaeth, wedi cael ei ddileu.
- Roedd gwendidau yn y ddogfen o ran cyfleoedd a photensial. Nid oedd yn cydnabod cryfderau arbennig Cymru, ac nid oedd yn ddigon gobeithiol.
- Roedd yr ail ddrafft yn well, ond roedd bellach yn rhy hir. Roedd angen iddo fod yn fwy cryno a phenodol, gyda chysylltiadau â chanlyniadau a mecanweithiau ar gyfer ei gyflwyno.
- Roedd nifer o raglenni ar goll o'r ddogfen (ee Pobl mewn Cymunedau). Roedd angen cysylltu â strategaethau eraill megis y rhai hynny i fynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol.
- Nid oedd llawer am ofal plant yn y ddogfen
- Roedd angen rhoi mwy o bwyslais ar bobl ifanc – creu cyfleoedd iddynt a'u hannog i aros yng Nghymru.
- Roedd angen nodi tensiynau, rhwng twristiaeth a'r amgylchedd er enghraifft, yn benodol.
- Roedd y cyfeiriadauynglþn â chefnogi Busnesau Bach a Chanolig yn amhenodol ac yn rhy wan
- Roedd angen i'r strategaeth ar gyfer Ymchwil a Datblygu fod yn fwy manwl a chadarn.

3.2 Mewn ymateb i'r pryderon fod angen llawer mwy o waith ar y Strategaeth cyn y byddai'r Pwyllgor mewn sefyllfa i'w chadarnhau, esboniodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai'n cael ei chyflwyno fel dogfen waith yn unig pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gosod y Strategaeth gerbron y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref. Byddai'r ddadl ynglþn â blaenoriaethau strategol yn rhan bwysig o'r ddadl lawn.

***Crynodeb y Cadeirydd***

3.3 Gan grynhoi, dywedodd y Cadeirydd mai'r teimlad cyffredinol oedd fod yr ail ddrafft yn gam ymlaen, ond roedd angen ei ddiwygio'n sylweddol eto. Yn arbennig, roedd pryder ynglþn â diffyg gweledigaeth yn y ddogfen, a chysylltu strategaeth â thargedau a chanlyniadau penodol, a rhaglenni eraill.

**Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1 Ddiwygiedig (EDC-07-99(p.2))**

4.1 Yn ystod y drafodaeth gyffredinol ynglþn â'r ddogfen ddiwygiedig, mynegwyd y pwyntiau canlynol:

**Pennod 1**

- Gellid ail ddrafftio paragraff 13 er mwyn amlinellu'r weledigaeth yn gyntaf ac yna amlinellu'r broblem.
- Dylid diffinio cynaliadwyedd yn glirach yn gynnar yn y ddogfen.
- Dylid cael cydbwysedd gofalus rhwng swyddogaeth hanfodol yr economi cymdeithasol a busnes preifat (gan gynnwys mewnfuddsoddi) wrth gyflawni targedau.
- Dylid ailddrafftio paragraff 9 er mwyn dangos bod yr iaith Gymraeg yn bwysig y tu allan i'r ardaloedd gwledig.

**Pennod 2**

- Dylid hysbysu'r Comisiwn fod y Pwyllgor yn gweithio ar dargedau ychwanegol ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyfleoedd cyfartal ac ati, er mwyn ategu'r prif fesur GDP. Nododd Ysgrifennydd y Cynulliad fod hyn yn debygol o fod yn unol â dull newydd y Comisiwn o osod targedau.
- Mynegwyd pryder ynglþn â phroblemau wrth bennu dangosyddion mewn rhai meysydd: ar gyfer gwaith Ymchwil a Datblygu sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth yn hytrach nac yn breifat; ar gyfer nifer y graddedigion/prentisiaethau; ac ar gyfer cwmnïau nad ydynt wedi eu cofrestru ar gyfer TAW ac ati. Hefyd, nodwyd fod trafferthion arbennig ynglþn â chasglu data ar gyfer microgwmnïau, yr oedd angen mynd i'r afael â hwy yn syth.
- Cytunwyd y byddai targedau'n cael eu mabwysiadu ar sail prosiect wrth brosiect.
- Roedd tudalen 10 o'r ddogfen ddiwygiedig yn cyfeirio at sectorau sydd wedi'u targedu ar gyfer twf megis amaethyddiaeth a thwristiaeth, ond roedd angen ei diwygio er mwyn dangos nad oedd yn anwybyddu meysydd eraill megis y diwydiannau creadigol.
- Roedd angen ailddrafftio paragraff 2.15 er mwyn sicrhau ei fod yn cyfeirio at gefnogaeth i bob math o gynhyrchu organig yn gyffredinol, nid garddwriaeth organig yn unig.
- Nid oedd y targedau o safbwynt cyfleoedd cyfartal wedi'u datblygu cystal yn y ddogfen hon ag yn y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol. Roedd angen canolbwyntio'n arbennig ar y rhai hynny ar gyfer pobl sydd ag anableddau, lleiafrifoedd ethnig, cyflog a gofal plant. Yr oedd angen i'r diffiniad o gynnwys yn y brif ffrwd gael ei gynnwys yn y testun.
- Nid oes cyfeiriad at botensial economaidd y porthladdoedd yn y ddogfen, o ran asesu potensial nac o ran trafnidiaeth.

**Pennod 3 – Blaenoriaethau**

- Ynglþn ag ynni dylai'r ddogfen fod yn fwy penodol a chyfeirio at amrywiaeth y ffynonellau amgen posibl. Roedd angen diffiniad o ynni "glân".
- O safbywnt Ymchwil a Datblygu, teimlwyd nad oedd y testun yn rhoi digon o bwyslais ar ei arwyddocad, nid yn unig yn y sector preifat, ond yn y sector cyhoeddus hefyd a oedd â hanes gwael iawn o safbwynt buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu.
- Ynglþn â thelathrebu, teimlwyd y gallai'r ddogfen fod yn fwy penodol o ran clustnodi cryfderau posibl Cymru o ran cyflenwi, seilwaith a hyfforddiant. Cyfeiriwyd at gyflwyniad gan BT, lle'r awgrymodd y cwmni fod y seilwaith angenrheidiol ar gael yng Nghymru eisoes. Mewn datganiad ar yr angen i sefydlu technoleg flaenllaw, roedd BT wedi dweud "*There exists a fibre backbone covering all regions of Wales.* [ac o ran technoleg flaenllaw mae'n cyfeirio at] *technological advances such as ADSL (Asymetric Digital Subscriber Line), which provides data at up to 40 times as fast as ISDN. This is a two-way broadaband communication. This technology would be phases into Wales using commercial criteria. European funds could be used to ensure Wales is at the forefront. The main point is that there needs to be demand-led stimulation. Welsh businesses are last in the uptake of e-commerce.*" Cytunodd y Pwyllgor ei bod hi'n hanfodol canfod union natur y seilwaith presennol cyn llunio strategaeth fanwl. Un o'r prif drafferthion gyda hyn oedd bod y galw am well cysylltiadau cyflym llawer yn is yng Nghymru nag mewn ardaloedd eraill o'r

DU. Roedd angen trafod pellach ar ba ddarpariaeth yn union yr oedd ei hangen.

- Ynglŷn â thwristiaeth, awgrymwyd nad oedd y polisi o fuddsoddi mewn prosiectau arloesol yn cydymffurfio â'r dull gweithredu ar gyfer twristiaeth a fabwysiadwyd yn y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol. Roedd angen datblygu ansawdd cyfleusterau yn gyffredinol. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i edrych ar hyn unwaith eto.
- Ynglŷn â Mesur 2, teimlwyd y dylid cyfeirio at allforion ac annog mewnfuddsoddi lle'r oedd potensial o ran datblygu cadwynau cyflenwi.
- Ynglŷn â Blaenoriaeth 2, roedd angen edrych ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus i gludo pobl a oedd yn dychwelyd i'r farchnad waith i'w lleoedd gwaith. Os oedd swyddi'n cael eu creu, roedd hi'n hanfodol bwysig bod y swyddi hyn o fewn cyrraedd hwylus i'r di-waith. Roedd trafnidiaeth o ardaloedd preswyl i stadau diwydiannol yn wael yn aml.
- Nid oedd Blaenoriaeth 3 yn cyfeirio rhyw lawer at iechyd yn y gweithle nac yn y gymuned.
- Dylid ehangu'r cyfeiriad at helpu cymunedau i ddatblygu partneriaethau gydag asiantaethau i gynnwys partneriaeth gyda'r sector preifat.
- Dylai Mesur 1, Datblygu marchnadoedd llafur gweithredol, fod yn fwy penodol ynglŷn â'r angen i weithio gyda phlant mewn ysgolion cyn iddynt anfodloni.
- Dylai'r cyfeiriad at TGC adlewyrchu mai cymdeithas wedi'i seilio ar wybodaeth oedd y prif sbardun ar gyfer TGC, ac nid i'r gwrthwyneb.
- Ynglŷn â blaenoriaeth 5, mynegwyd pryder fod y cyfeiriad penodol at gymunedau gwledig wedi cael ei ddileu. Nid oedd unrhyw fesurau penodol mewn grym ar gyfer y cymunedau hyn ychwaith. Y rheswm am ailddrafftio oedd fod anghenion cymunedau gwledig yn cael eu cynnwys yn yr holl flaenoriaethau (ee roedd mesurau ar gyfer datblygu swyddi yn cynnwys swyddi mewn cymunedau gwledig). Roedd angen ystyried y mater eto, fodd bynnag, o ran y cyflwyniad. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cynulliad i ystyried y mater ymhellach.

***Crynodeb y Cadeirydd***

4.2 Nododd y Cadeirydd holl sylwadau'r aelodau ac (yn nes ymlaen yn ystod y cyfarfod) dosbarthodd bapur a ddrafftiwyd yn ystod y cyfarfod a oedd yn cynnig crynodeb o'r prif negeseuon yr oedd y Pwyllgor yn dymuno i'r Ysgrifennydd Cynulliad eu cyflwyno i'r Cabinet.

**Eitem 3: Amcan 1 – Gweithredu**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Jeff Andrews o Ysgrifenyddiaeth y Tasglu. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at y papurau ar weithredu a ystyriwyd gan y Tasglu yn ystod yr wythnos flaenorol ac a oedd erbyn hyn wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor (EDC-07-99(p.4)). Gofynnwyd i Jeff Andrews am adborth ar sut y derbyniodd y Tasglu'r cynigion ar gyfer gweithredu, ac am wybodaeth ynglŷn â pha faterion yr oedd angen eu datrys ar frys.

***Jeff Andrews, Tasglu a Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Adran Bolisi Cyngor Sir Caerdydd***

- Dechreuodd Jeff Andrews trwy gadarnhau fod y Tasglu wedi cefnogi'r dull gweithredu ar sail

pecynnau. Fodd bynnag, roedd angen datrys nifer o faterion gan gynnwys y cwestiwn o'r cydbwysedd yr oedd angen ei sicrhau rhwng pecynnau lleol a chenedlaethol.

- Ynglþn â'r cynigion am Asiantaeth Weithredol, unwaith eto, roedd y Tasglu yn gryf o blaid hyn fel ffordd ymlaen. Fodd bynnag, roedd angen gwneud llawer o waith ar y manylion. Roedd y materion i'w datrys yn cynnwys aelodaeth unrhyw fwrdd a fyddai gan asiantaeth weithredol; y berthynas rhwng yr asiantaeth a'r pwyllgorau monitro; a'r berthynas rhwng y ddau gorff hyn a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Tynnodd Mr Andrews sylw'r Pwyllgor at yr enghraifft a luniodd ar y cyd â'r Bwrdd Croeso gyda'r nod o ddangos sut y gallai'r trefniadau weithio'n ymarferol o fewn strategaeth bolisi genedlaethol. Wrth wneud hyn, pwysleisiodd mai enghraifft yn unig oedd hon ac nad oedd yn gynnig go iawn.

5.2 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Andrews am ei gyfraniad ac agorodd y drafodaeth i'r llawr, a mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:

- Roedd hi'n debygol y byddai un pwyllgor monitro yn gyfrifol am ardal Amcan 1 Cymru i gyd. Ond byddai grwpiau partneriaeth hefyd ym mhob ardal ac ar lefel leol.
- Roedd y cynigion ar gyfer gweithredu yn golygu mai'r pwyllgorau monitro fyddai'n gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau, ac nid y Cynulliad ei hunan.
- Byddai swyddogaeth yr asiantaeth weithredol yn un weinyddol a datblygol. Byddai'n rheoli'r broses o wneud ceisiadau a thalu, ac yn sicrhau cyhoeddusrwydd yn ogystal â hybu'r rhaglenni.
- Roedd angen delio ar fyrder â chwestiwn cymorth technegol er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth i'r sector preifat, ac i raddau llai, y sector gwirfoddol.
- Ynglþn ag amseru, rhagwelwyd y byddai darpar bwyllgor monitro wedi'i sefydlu yn fuan iawn, ac y byddai trafodaethau ffurfiol gydag amryfal noddwyr yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl i drafod manylion y dull gweithredu ar sail pecynnau. Hefyd, dylid rhoi blaenoriaeth i edrych ar bosibilrwydd cynhyrchu gwybodaeth am y rhaglenni a fyddai, o angenrhaid, yn cynnwys datganiadau bras iawn ynglþn â'r ffordd ymlaen. Byddai hyn yn galluogi partneriaid i ddechrau cynllunio.
- Roedd llawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd ynglþn ag ar ba lefel y dylid penderfynu ac yngln ag atebolrwydd, yn arbennig o safbwynt i bwy fyddai Prif Weithredwr yr asiantaeth arfaethedig yn atebol, a beth ddylai swyddogaeth Aelodau'r Cynulliad fod.
- Nid oedd y termau "lleol" ac "is-ranbarthol" wedi cael eu diffinio at ddibenion y dull gweithredu ar sail pecynnau. Y nod oedd osgoi bod yn rhy benodol.
- Ynglþn ag Amcan 3, roedd hi'n debygol iawn y byddai Cymru i ryw raddau yn rhwym wrth y trefniadau monitro oedd mewn grym ar hyn o bryd ar gyfer y DU. Roedd swyddogion y Cynulliad wrthi'n trafod â'r Adran Addysg a Chyflogaeth ar gynigion i ddatganoli Cronfa Gymdeithasol Ewrop i Gymru.

5.3 Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am ei sylwadau ynglþn â nifer o gwestiynau penodol. Ar ôl trafod, cymeradwyodd y Pwyllgor y dull gweithredu ar sail pecynnau a'r egwyddor o symleiddio'r ffordd y gweinyddir y cronfeydd strwythurol drwy'r ail-drefnu arfaethedig.

Cymeradwywyd yr egwyddor o gynrychiolaeth 1/3 : 1/3 : 1/3 (asiantaethau‘r llywodraeth: partneriaid cymdeithasol: corff cymunedol/gwirfoddol) ar fwrdd y pwyllgor monitro a phwyllgorau partneriaeth eraill.

5.4 Derbyniwyd yr egwyddorion bras, ond gan gadw’r canlynol mewn cof:

- y byddai'r berthynas rhwng pecynnau ar lefel leol a chenedlaethol yn cael ei diffinio mewn ffordd a fyddai'n sicrhau hyblygrwydd.
- byddai'r Pwyllgor yn cael y cyfle i ystyried y berthynas dairochrog rhwng yr asiantaeth arfaethedig, y pwyllgorau monitro a’r Cynulliad Cenedlaethol ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

5.5 Dywedodd Alun Cairns na fyddai'n cefnogi'r cynigion hyd nes y byddai wedi ymgynghori â'i blaid.

***Crynodeb y Cadeirydd***

5.6 Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r dull gweithredu ar sail pecynnau, yr egwyddor o symleiddio'r ffordd y gweinyddir y cronfeydd strwythurol trwy ddefnyddio un sefydliad, ac egwyddor cynrychiolaeth 1/3 : 1/3 : 1/3, ond roedd ganddo gryn amheuaeth ynglþn â'r manylion. Cytunodd y Pwyllgor fod angen ystyried trefniadau sy’n ymwneud â chyhoeddusrwydd ar unwaith.

**Amcan 3**

5.7 Gan fod amser y Pwyllgor yn brin yn hyn o beth, cytunodd yr aelodau â chynnig y Cadeirydd yngln ag unrhyw sylwadau am y cynigion diwygiedig ar gyfer Amcan 3 trwy ohebu.